

## **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru: 3 Mawrth 2022 Camau Gweithredu/Penderfyniadau Allweddol**

- Fe fydd y Bwrdd yn clywed profiadau unigolyn sydd wedi goroesi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a'r gwersi mae angen i sefydliadau Cyfiawnder Troseddol eu dysgu er mwyn cyflawni newid Mehefin 2022.
- 2022-2023 Cyflwyno Cynllun Cyfathrebu'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol sy'n amlinellu sut caiff gwaith y Bwrdd ei gyfathrebu â'r cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o brosiectau a mentrau i gynyddu hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol yn Nghymru.
- Cytunodd y Bwrdd y bydd Grŵp Cyfathrebu Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn gweithio gyda'r arweinwyr strategol i gefnogi darparu'r Cynllun Cyfathrebu.
- Caiff defnyddio'r Cardiau Sgorio Cyfiawnder Troseddol a Thrais newydd yn lleol a chenedlaethol ei drafod yng nghyfarfod nesaf y bwrdd.

### **Gweithdy myfyrio: Cyflawniadau 2021 ac edrych ymlaen at 2022-2023**

Canolbwynt y cyfarfod hwn oedd trafod cyflawniadau rhaglen waith 2021-2022 ac edrych ymlaen at ffurfio rhaglen waith 2022-2023. Yn dilyn y gweithdy:

- Bydd cydlynnydd yn gweithio gydag arweinwyr strategol i gymeradwyo adroddiad blynyddol 2021-2022 a rhaglen waith 2022-2023 erbyn 30 Ebrill 2022.
- Fe fydd y Bwrdd yn edrych ar gyfleoedd i gydweithio â llys teulu a llys sifil fel rhan o raglen waith 2022-2023.

### **Ariannu gwaith Cyfiawnder Troseddol ar draws Cymru**

- Fe fydd y Bwrdd yn ystyried cyllid ar gyfer isadeiledd arfaethedig newydd a fydd yn cefnogi darparu'r Rhaglen Waith Cyfiawnder Troseddol ar lefel genedlaethol a lleol, yn ogystal ag unrhyw gostau ychwanegol sy'n ofynnol i gynorthwyo â darparu'r gweithgareddau a nodir yn Rhaglen Waith 2022-2023.

### **Uno Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol**

- Cafodd dogfen negeseuon Allweddol Chwarterol y Bwrdd ei chynhyrchu a'i rhannu gyda'r rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel a phartneriaethau ehangach er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chysylltedd rhwng Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.
- Gweithio gydag Arweinwyr Diogelwch Cymunedol Cymru i benderfynu cwmpas yr ymarfer mapio er mwyn deall y materion cyffredin y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i gyd yn mynd i'r afael â nhw yng Nghymru.
- Bydd Gogledd Cymru yn defnyddio eu cyfarfod 'Cadeiryddion Cadeiryddion' nesaf ym mis Mehefin 2022, i drafod atal sylfaenol er mwyn deall beth sy'n digwydd ar draws y partneriaethau a lle mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Caiff dysgu ei rannu â'r Bwrdd ym mis Medi.

## Gweithgareddau presennol Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru, Mawrth 2022.

### Dyfed Powys

#### Dioddefwyr

i) Cod Ymarfer Dioddefwyr (VCOP): Model hap samplu De Cymru wedi'i ddiweddarau a'i fabwysiadu yn Nyfed Powys.

Fideo profiadau dioddefwyr wedi'i rhannu er mwyn llywio hyfforddiant swyddogion yr heddlu.

ii) Trais a throseddau rhyw:

- Roedd achosion hap samplu ar gyfer trais yn dangos allbynnau cadarnhaol.
- Gwaith wedi'i gynllunio i gasglu adborth gan dioddefwyr a oedd wedi dewis peidio manteisio ar gefnogaeth Cyngorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol.
- Mae Dyfed Powys wedi cynyddu nifer yr achosion lle mae'r heddlu'n cael cyngor cynnar gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn y chwarter hwn.
- Gwasanaeth a gomisiynwyd yn casglu profiadau dioddefwyr ac adborth.

iii) Cyfleusterau dolen Fideo Byw: mae 2 safle'n fyw. Nid oes unrhyw achosion wedi'u clywed eto. Mae ymgynghorydd rhanbarthol VAWDASV yn mynychu'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i sicrhau cysylltedd adrodd.

**Pobl sydd wedi troseddu:** archwilio dewisiadau ar gyfer Canolfan i Ferched yn Nyfed Powys. Mae cynllun peilot tai yng Ngheredigion ar gyfer troseddwr cyson iawn ar raglen Rheoli Troseddwr Integredig (IOM) yn dangos canlyniadau cadarnhaol cynnar.

**Ymyrraeth Gynnar ac atal:** mae llwybr gwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd wedi'i fapio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu.

- Mapio gweithgareddau atal trais difrifol.
- Adrodd am ganlyniadau arolwg CHTh ar ddiogelwch yn yr ardal yn y chwarter nesaf.

**Cydraddoldeb Hiliol** - mynychu grŵp strategol Cymru gyfan a CHTh i fod yn gydgadeirydd grwpiau gorchwyl data.

### Gwent

#### Dioddefwyr

i) Cod Ymarfer Dioddefwyr: Hap samplu peilot VCOP wedi'i gwblhau. Templed wedi'i ddiweddarau a'i rannu gyda Heddlu Dyfed Powys a Gogledd Cymru i'w fabwysiadu. Hap samplu'r chwarter nesaf wedi dechrau.

ii) Trais a throseddau rhyw: Cynnydd o ran nifer yr achosion a atgyfeiriwyd ar gyfer cyngor cynnar, o'i gymharu â'r chwarter diwethaf.

iii) Cyfleusterau dolen Fideo Byw: Mae cyfleuster Casnewydd yn fyw ers mis Mawrth 2022.

Cyfarfod wythnosol Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Uned Gofal i Dystion i ddisodli colli'r Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais Domestig pwrpasol wythnosol. Llwyddiant Uned Gofal i Ddioddefwyr. Adrodd bod presenoldeb tystion yn 90% mewn Llysoedd Ynadon. 100% yn Llys y Goron. Cynllun gweithredu Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu yn cael ei ddatblygu i fonitro amseroldeb achosion.

Prawf peilot llunio ffeiliau cam-drin domestig ym mis Ionawr 2022 i wella ansawdd ffeiliau.

Panel craffu cam-drin domestig wedi'i sefydlu i edrych ar 10 achos dim gweithredu pellach gan yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

**Pobl sydd wedi troseddu:** Roedd Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a sefydliadau'r trydydd sector yn llwyddiannus gyda chais i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sefydlu tai â chymorth a chyfryngu cyn rhyddhau ar gyfer pobl 18-25 oed sy'n gadael carchar.

Datblygu cynllun tactegol ar gyfer Cyflawnwyr Cam-drin Domestig yng Ngwent.

Sefydlu Bwrdd Comisiynu VAWDASV.

**Ymyrraeth gynnar ac atal.** Prosiect Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y cyd yng Nghasnewydd rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Heddlu. Yr heddlu'n canolbwyntio ar ddiwylliant Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn y gweithle. Datblygu strategaeth a chynllun VAWG Heddlu Gwent.

**Cydraddoldeb Hiliol** - mynychu grŵp strategol Cymru gyfan a'r Prif Gwnstabl Kelly, Cydgadeirydd y Tasglu. Prif Uwch-arolygydd i Gydgadeirio'r Grŵp Gorchwyl Data a'r Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gydgadeirio Grwpiau Gorchwyl Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

## Gogledd Cymru

Defnyddio Cardiau Sgorio Cyfiawnder Troseddol i fonitro perfformiad.

### Dioddefwyr

- i) Cod Ymarfer Dioddefwyr: Gweithredu model hap samplu De Cymru yn y chwarter nesaf. Adolygu gwasanaethau dioddefwyr a gomisiynwyd.
- ii) Trais a throseddau rhyw: Cafodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd olwg fanwl ar drais
  - Archwiliad heddlu o ganlyniadau, 16 wedi'u cwblhau. Wedi'u rhannu ar draws Cymru.
  - Mapio llywodraethu yng Ngogledd Cymru o ran Trais a throseddau rhyw. Goroeswyr Gogledd Cymru yn cynghori'r Grŵp gwasanaeth a sefydlwyd er mwyn i'r gwasanaeth glywed gan oroeswyr yn uniongyrchol, caiff panel newydd ei sefydlu hefyd.
  - Monitro amseroldeb cyhuddo fel blaenoriaeth 2022-23.
- iii) Cyfleusterau dolen Fideo Byw: Mae tri safle'n fyw. 3 achos wedi'u clywed hyd yma.

### Pobl sydd wedi troseddu:

Un grŵp darparu IOM ar gyfer troseddwyd sefydledig. Adroddiad i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Strategaeth newydd Troseddu gan Fenywod yn cael ei datblygu gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Grŵp Darparu Merched mewn Cyfiawnder Gogledd Cymru wedi'i sefydlu.

**Ymyrraeth gynnar ac atal.** Partneriaeth Gogledd Cymru i fynd i'r afael â VAWG wedi'i sefydlu. Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn datblygu adroddiad er mwyn deall tueddiadau atal yng Ngogledd Cymru. Meddygon Stryd wedi'u comisiynu i ddarparu sesiynau i bobl ifanc am gyngor achub bywydau sy'n ymwneud â digwyddiadau â chyllyll.

**Cydraddoldeb Hiliol** - mynychu grŵp strategol Cymru gyfan a Phennaeth gwasanaethau pobl i fod yn gydgadeirydd grwpiau gorchwyl addysg.

## De Cymru

### Dioddefwyr

- i) Cod Ymarfer Dioddefwyr: Hap samplu peilot VCOP wedi'i gwblhau. Templed wedi'i ddiweddarau a'i rannu gyda rhanbarthau eraill yng Nghymru iddynt ei fabwysiadu. DASHboard wedi'i ddatblygu i ddeall cydymffurfiaeth dioddefwyr yng Ngogledd Cymru. Ebrill, hap samplu'r chwarter nesaf wedi dechrau. Pecyn gwybodaeth i ddiodefwyr wedi'i ddiweddarau. Grŵp hap samplu Cymru Gyfan wedi'i sefydlu.
- ii) Trais a throseddau rhyw: Ymgyrch Soteria yn mynd yn fyw yn 2022, mae gwaith eisoes wedi dechrau. Cynllun peilot cyfnewid ffonau symudol wedi'i sefydlu, a fan symudol wedi'i ariannu i dynnu tystiolaeth fforensig o ffonau symudol dioddefwyr o fewn 24 awr. Hyfforddiant Syndrom Trawma Trais yn cael ei gyflwyno. Cyflwyno adroddiad am ailfodelu gwasanaethau Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol i'r bwrdd ym mis Mawrth.
- iii) Cyfleusterau dolen Fideo Byw: Safle Caerdydd, adeilad 'Rise' i fynd yn fyw yn y chwarter nesaf... gan olygu cyfanswm o 8 safle yn Ne Cymru. Maesteg ac Abertawe sydd wedi'u defnyddio fwyaf hyd yma.
  - 2 x eiriolwr mesurau arbennig wedi dechrau. Hefyd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ariannu un eiriolwr ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru fel peilot. Bydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn monitro llwyddiant yn lleol.
  - Mapio gwasanaeth cyfiawnder adferol yn Ne Cymru.

**Pobl sydd wedi troseddu:** Cytunwyd ar adroddiad perfformiad IOM bob chwarter er mwyn sbarduno trafodaeth am weithgareddau.

- Cyrraedd targedau cyswllt y Swyddfa Gartref gyda rhestr IOM bob mis.
- Pontypridd a Merthyr yn dechrau treial i ddefnyddio Buyidal i fynd i'r afael â defnyddio cyffuriau yn yr ardal. Asesiad iechyd meddwl a lles yn y ddalfa a gwasanaethau dioddefwyr
- Mae rhaglenni cyflawnwyr cam-drin domestig lefel isel yn cael eu cwmpasu.

**Ymyrraeth gynnar ac atal.** Defnyddio adroddiad Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru i drafod cynnig atal sylfaenol.

**Cydraddoldeb Hiliol**- Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yw cadeirydd y Grŵp Strategol Cydraddoldeb Hiliol.